Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Ystafell Bwyllgor 1 - Canolfan Ddinesig, Abertawe**

**Dydd Gwener, 14 Rhagfyr 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | N J Davies |
| P Downing | S J Gallagher | P Lloyd |
| H M Morris | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Swyddog Adrannol, Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Kath Thomas | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C L Philpott, B J Rowlands a/ac L G Thomas

---

## 48 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

<u>Cynghorwyr</u>

Y Cynghorydd C A Anderson – Personol - Cofnod Rhif 51 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded i Yrru Cerbyd Hurio Preifat Cyfyngedig - Nissan NV200 - rwy'n adnabod yr ymgeisydd.

Y Cynghorydd N J Davies - Personol - Cofnod Rhif 54 - Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - KSR. Rwy'n adnabod yr ymgeisydd yn broffesiynol. Gadawodd y Cynghorydd N J Davies y cyfarfod cyn ystyried yr eitem.

<u>Swyddogion</u>

Samantha Woon - Personol - Cofnod Rhif 55 - Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 - Deddf Llywodraeth leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais AJR am

Drwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - rwy'n adnabod yr ymgeisydd. Gadawodd Samantha Woon y cyfarfod cyn ystyried yr eitem.

**49 Cofnodion:**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Statudol a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2018 yn gofnod cywir.

**50 Cais i dynnu isafswm maint yr injan/angen capasiti.**

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch adroddiad a oedd yn ceisio diddymu isafswm maint injan/gofyniad cynhwysedd.

Manylodd ar yr wybodaeth gefndirol, y sefyllfa bresennol, y cynnig, yr ymchwil, yr ystyriaethau a'r argymhellion.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**Penderfynwyd** diddymu'r amod sy'n gofyn bod maint injan cerbyd hacni a/neu gerbyd hurio preifat cyfyngedig yn llai na 1500cc.

**51 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais i Ganiatáu Trwydded Cerbyd Hurio Preifat Cyfyngedig - Nissan NV200 - NK12 FHW.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo trwydded cerbyd hurio preifat cyfyngedig Mr Harris mewn perthynas â'r Nissan NV200, rhif cofrestru NK12 FHW, a'i hadnewyddu yn ôl teilyngdod.

**52 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**53 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Deddf Cydraddoldeb 2010 - Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - Cais am Dystysgrif Eithrio - MC.**

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais MC i gael ei eithrio o gludo defnyddwyr cadair olwyn mewn cerbyd hacni a/neu gerbyd hurio preifat.

Esboniodd MC yr amgylchiadau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cais MC i gael ei eithrio o gludo defnyddwyr cadair olwyn mewn cerbyd hacni a/neu gerbyd hurio preifat, tan fis Tachwedd 2021.

## 54 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded Cerbyd Hacni a Gyrrwr Hurio Preifat - KSR.

Dywedodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch fod y mater wedi'i ohirio o'r cyfarfod ar 9 Tachwedd, 2018 er mwyn i KSR drefnu cynrychiolaeth gyfreithiol.

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais KSR am drwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

Esboniodd KSR yr amgylchiadau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** gwrthod cais KSR am drwydded yrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat.

Rheswm dros y penderfyniad

1. Nid oedd yr aelodau'n fodlon bod KSR yn berson addas a phriodol;
2. Mae'r canllawiau'n nodi bod rhaid i gyfnod o o leiaf dair blynedd heb euogfarnau mewn perthynas â thrais fynd heibio cyn yr ystyrir cais;
3. Ni ddarparwyd rhesymau argyhoeddiadol gan yr ymgeisydd dros fynd yn groes i'r canllawiau;
4. Ni dderbyniodd yr ymgeisydd unrhyw fai am y troseddau.

## 55 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded Cerbyd Hacni a Gyrrwr Hurio Preifat - AJR.

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais AJR am drwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

Esboniodd AJR yr amgylchiadau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** gwrthod cais AJR am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

Rheswm dros y penderfyniad

1. Nid oedd yr aelodau'n fodlon bod AJR yn berson addas a phriodol;
2. Mae'r canllawiau’n ddewisol o ran a ddylid cymeradwyo trwydded ar ôl i drwydded yrru'r DVLA gael ei hadfer yn dilyn gwaharddiad;

3. Ystyriodd y pwyllgor yn yr achos hwn fod nifer yr euogfarnau am oryrru o fewn cyfnod byr, tair euogfarn o fewn 12 mis, a bod hyn yn dangos patrwm difrifol o droseddu gan warantu ymagwedd gryfach.
4. Ystyriodd y pwyllgor na fu troseddau pellach yn ystod y tair blynedd diwethaf, fodd bynnag ni ddangosodd yr ymgeisydd ei fod wedi dysgu o'i gamgymeriadau blaenorol.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.13 am

**Cadeirydd**